**RHAGOLWG**

**Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.**

**[Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad Dydd Mercher 15 Tachwedd 2006]**

**Penderfyniadau**

**Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd penderfynodd y Dirprwy Lywydd, yn unol ?heol Sefydlog 24.6**

**nad oes angen cyfeirio'r ddeddfwriaeth ganlynol i'w hystyried ymhellach gan bwyllgor pwnc:**

- **Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoleiddiol a Chwynion) (Cymru) 2006**

- **Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 9 ac Arbediad) (Cymru) 2006**

- **Rheoliadau Cig (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2006**

**Y Datganiad Busnes Drafft**

**Dydd Mawrth 21 Tachwedd a Dydd Mercher 22 Tachwedd 2006**

**Dydd Mawrth 28 Tachwedd a Dydd Mercher 29 Tachwedd 2006**

**Dydd Mawrth 5 Rhagfyr a Dydd Mercher 6 Rhagfyr 2006**

**Dydd Mawrth 21 Tachwedd 2006**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Lleol a Gwasnaethau Cyhoeddus : Adolygiad Beecham (30 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 funud)**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006**

**Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r trefniadau ar gyfer arolygu gwasanaethau gyrfaoedd a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru o dan y pwerau newydd a roddwyd i'r Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o dan Ddeddf 2005 (y Ddeddf). Bydd y Ddeddf a'r Rheoliadau cysylltiedig yn golygu y bydd y ffordd yr arolygir gwasanaethau gyrfaoedd a gwasanaethau cysylltiedig yn gyson ? ffordd yr arolygir yr holl Addysg a Hyfforddiant arall yng Nghymru sy'n rhan o gylch gwaith y Prif Arolygydd.**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2006**

**Mae Deddf Addysg (Ysgolion) 1997 yn darparu ar gyfer diddymu'r Cynllun Cymorth Lleoedd yn raddol, ac mae'n rhoi dyletswydd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i barhau i beidio ?hasglu'r cyfan neu ran o'r ffioedd a'r m? dreuliau eraill y mae'n ofynnol i rieni eu hysgwyddo am fod eu plentyn yn rhan o'r Cynllun Cymorth Lleoedd.**

**Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu cynnydd o 2.4%, yn unol ?hwyddiant (Mynegai Prisiau Manwerthu mis Hydref 2005), yn y tablau a ddefnyddir i gyfrifo'r swm y mae'n rhaid i rieni plant sy'n parhau i fod ?leoedd a gynorthwyir mewn ysgolion annibynnol a arferai fod yn rhan o'r cynllun ei gyfrannu at ffioedd dysgu yn ystod y flwyddyn academaidd 2005/2006, o ystyried eu hincwm perthnasol. Mae'r Rheoliadau hefyd yn pennu cynnydd o 2.4%, o ?1,575 i ?1,625, yn y lwfans dibynyddion a ddefnyddir i gyfrifo'r incwm perthnasol.**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (M?r Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2006**

**Mae Deddf Addysg (Ysgolion) 1997 yn darparu ar gyfer diddymu'r Cynllun Cymorth Lleoedd yn raddol, ac mae'n rhoi dyletswydd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i barhau i beidio ?hasglu'r cyfan neu ran o'r ffioedd a'r m? dreuliau eraill y mae'n ofynnol i rieni eu hysgwyddo am fod eu plentyn yn rhan**

**o'r Cynllun Cymorth Lleoedd.**

**Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu cynnydd o 2.4%, yn unol ?hwyddiant (Mynegai Prisiau Manwerthu mis Hydref 2005), yn y tablau a ddefnyddir i gyfrifo cymhwyster rieni i gael y grant gwisg ysgol a'r grant teithio a fydd ar gael o dan y cynllun yn ystod y flwyddyn academaidd 2006/07.**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Diwygio) (Cymru) 2006 (15 munud)**

**Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu gofynion Erthygl 3 yng Nghyfarwyddeb 'Cyfranogiad y Cyhoedd' 2003/35/EC. Maent yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 ac yn diweddaru rhai o'r diffiniadau sy'n gysylltiedig ag Asesu Effeithiau Amgylcheddol yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995.**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu) (Cymru) 2006 (15 munud)**

**Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu trefniadau adolygu annibynnol ar gyfer adolygu penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan asiantaethau mabwysiadu, os ydynt yn bwriadu:**

- **peidio ?hymeradwyo darpar fabwysiadwyr fel rhai sy'n addas i fabwysiadu plentyn;**
- **dirymu cymeradwyaeth i ddarpar fabwysiadwyr y bernir nad ydynt yn addas mwyach i fabwysiadu plentyn;**
- **peidio ?ymud ymlaen ?hais am ddatgelu gwybodaeth;**
- **datgelu gwybodaeth am berson lle nad oes caniat?wedi'i roi i ddatgelu'r wybodaeth honno; a**

**pheidio ?atgelu gwybodaeth am berson lle mae caniat?wedi'i roi i ddatgelu'r wybodaeth honno.**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) (Diwygio) 2006 (15 munud)**

**Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) 2005 drwy:**

**ychwanegu esemptiadau pellach rhag y gofyniad i sefydlu gorchudd glas (e.e. glaswellt) erbyn dechrau'r tymor gorchudd glas;**

**ychwanegu darpariaeth sy'n caniat?i ffermwyr drin tir sydd wedi'i neilltuo oddi wrth waith cynhyrchu ar neu ar ? Mai, ac sy'n dir organig, at ddibenion rheoli chwyn;**

**dileu'r cyfyngiad ar bori ar ? cyfnod neilltuo pan fo'r gorchudd glas wedi'i amnewid;**

**pennu amodau rheoli newydd ar gyfer defnyddio plaleiddiaid a chwynleiddiaid ar dir sydd wedi'i neilltuo;**

**diweddaru cyfeiriadau at Reoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd 795/2004 a 1973/2004 a Rheoliad Cyngor Ewrop 1782/2003 i adlewyrchu'r diwygiadau sydd wedi'u gwneud i'r Rheoliadau hyn ers i Reoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) 2005 ddod i rym ar 15 Ionawr 2005; a**

**rhoi'r geiriau "9 Chwefror" yn lle'r geiriau "31 Ionawr" ar gyfer y dyddiad olaf ym mhob blwyddyn i'r rheini sy'n casglu neu’n prosesu deunyddiau crai a gynhyrchwyd ar neilltir at ddibenion heblaw am fwyd hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru faint o'r deunyddiau hynny a gafwyd.**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan adran 13(6) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1988 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru (45 munud)**

**Dydd Mercher 22 Tachwedd 2006**

- **Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**

- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**

- **Cwestiynau i Bwyllgor y Ty (5 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio : Deaths as a result of carbon monoxide poisoning (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) 2006 (15 munud)**

**Bydd y Rheoliadau hyn yn golygu y bydd Cymru'n gallu rhagnodi'r bwydydd Cychwyn Iach a fydd ar gael o dan y Cynllun Cychwyn Iach yng Nghymru. Y bwydydd a fydd ar gael o dan y Cynllun Cychwyn Iach fydd llaeth, fformiwla babanod, ffrwythau a llysiau ffres a fitaminau.**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Loter? Cenedlaethol 2006 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**
- **Motion to approve a determination on members` Allowances and Pension Scheme (5 munud)**

- **Dadl am Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (30 munud)**
- **Dadl am Adroddiad Blynyddol 2005/06 Comisiwn Gwasanaeth Iechyd Cymru (30 munud)**
- **Y ddadl fer (30 munud)**

**Dydd Mawrth 28 Tachwedd 2006**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) 2006 (15 munud)**

**Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) 1978 ac yn nodi rhestr wedi'i diweddaru o ddiheintyddion y cymeradwyir eu defnyddio er mwyn rheoli clefydau anifeiliaid o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981. Mae hefyd yn dirymu'r rhestr gyflawn o ddiheintyddion a**

**nodir yng Ngorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) 2005, ac yn darparu ar gyfer trefniadau trosiannol priodol.**

- **Datganiad gan y Gwir Anrh. Peter Hain, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ar Araith y Frenhines**

- **Dadl am Araith y Frenhines (90 munud)**

- **Dadl am 7fed Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Gydraddoldeb (60 munud)**

<u>**Dydd Mercher 29 Tachwedd 2006**</u>

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (30 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor yr**

**Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad am yr Agweddau Cynllunio ar Offer Telathrebu Symudol (30 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad am y Mesur Morol (30 munud)**

- **Motion to approve changes to the National Assembly for Wales Members' Pension Scheme Rules (5 munud )**

- **Motion to approve a Determination on Members` Pay and Allowances (5 munud)**

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (15 munud)**

- **Dadl am Gynllun y Cynulliad Cenedlaethol i Sicrhau Cydraddoldeb ar gyfer Pobl Anabl (60 munud)**

- **Motion to approve the Periodic Timetable Statement (5 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

**Dydd Mawrth 5 Rhagfyr 2006**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 funud)**

**Rheoliadau Hadau Grawnfwydydd (Cymru) a Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) (Diwygio) 2006**

**Mae'r Rheoliadau hyn yn trosi Cyfarwyddeb y Cyngor 2006/55/EEC, a gyhoeddwyd ar 12 Mehefin 2006, ac yn cynyddu uchafswm maint lotiau hadau grawnfwydydd ar gyfer rhywogaethau heblaw indrawn o 25 i 30 tunnell. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Hadau Grawnfwydydd (Cymru) 2005 a Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) 2005 yn unol ? Chyfarwyddeb y Cyngor 2006/55/EC.**

**Rheoliadau Cig (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2006**

**Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith yng Nghymru y darpariaethau yn Rheoliad 882/2004 y CE ar y Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd sy'n ymwneud ? gofynion i godi t?am reolaethau swyddogol ar hylendid cig mewn sefydliadau cig cymeradwy. Bydd y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd godi t?ar weithredwyr sefydliadau cig cymeradwy yng Nghymru er mwyn adennill costau'r Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS), un o Asiantaethau Gweithredol yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae'r costau hyn yn deillio o'r rheolaethau swyddogol a gynhelir gan y Gwasanaeth Hylendid Cig mewn safleoedd o'r fath at ddibenion gwirio cydymffurfiaeth ? ofynion perthnasol o ran hylendid cig.**

- **Cynnig I gymeradwyo Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoleiddiol a Chwynion) (Cymru) 2006 (15 munud)**

**Bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau bod y Rheoliadau presennol ar wasanaethau a reoleiddir gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) yn cyd-fynd ?au ddatblygiad diweddar - y broses o ddiwygio arferion rheoliadol a'r fframwaith newydd ar ddelio ?hwynion yn erbyn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.**

- **Cynnig I gymeradwyo Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 9 ac Arbediad) (Cymru) 2006 (15 munud)**

**Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi mewn grym ddarpariaethau penodol yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae'r darpariaethau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol ystyried anghenion pobl sydd ?hroblemau symud, wrth iddynt godi camfeydd a chlwydi ar draws llwybrau cerdded a llwybrau ceffylau. Mae'r Gorchymyn hefyd yn cychwyn rhai darpariaethau technegol o fewn y Ddeddf ac yn esbonio effaith y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y ddau Orchymyn Cychwyn blaenorol.**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2006 (15 munud)**

**Mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud ?hwer y Cynulliad i wneud Gorchymyn er mwyn paratoi ar gyfer etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2007. Mae Rhan I a II o'r Atodlen yn pennu uchafsymiau ar gyfer y taliadau, treuliau a ffioedd y gall Swyddogion Canlyniadau eu hawlio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer costau sy'n gysylltiedig ag etholiadau. Mae Rhan III yn darparu ar gyfer y treuliau y gall Swyddogion Canlyniadau eu hawlio, ac nad oes uchafsymiau wedi'u pennu ar eu cyfer. Mae'n diddymu Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2002 a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2003.**

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (60 munud)**
- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru (45 munud)**

**Dydd Mercher 6 Rhagfyr 2006**

- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (30 munud)**
- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (30 munud)**
- **Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, yn unol ?heol Sefydlog 6.28 ac fel y nodwyd yn y rhestr o gyfrifoldebau Gweinidogion (30 munud)**
- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (30 munud)**
- **Dadl ar yr Adolygiad o Gyngor y Celfyddydau (60 munud)**
- **Y ddadl fer (30 munud)**